

1

Llwybr Hanes Llangollen



Camlas, hen abaty a chastell canoloesol

Pellter: 9.6km / 6 milltir

Amser: 3 - 4 awr

Parcio: Maes parcio tymor hir (£), Llangollen

Cychwyn: Canolfan Croeso

Cyf. Grid: SJ214421, Map OS Explorer 255 neu 256

Graddfa: Cymedrol (gyda'r dewis o ddringo'n serth i ben Dinas Brân)

Cyfleusterau: The Wharf Tearooms a The Abbey Tearooms; Yr holl gyfleusterau yn Llangollen, www.llangollen.org

Canal walking, ancient abbey and medieval castle

Distance: 9.6km / 6 miles

Time: 3 - 4 hours


Parking: Long stay public car park (£), Llangollen

Start: Llangollen TIC

Grid ref: SJ214421, Explorer map 255 or 256

Grade: Moderate (+ optional steep ascent to Dinas Brân)

Facilities: The Wharf Tea rooms; Abbey Tearooms; all facilities in Llangollen, www.llangollen.org



Y Daith Gerdded


Ceir taflen Y Llwybr Hanes sy'n esbonio'r nodweddion hanesyddol ar y llwybr yn fanylach o'r Ganolfan Croeso neu www.llwybraudyffryndyfrdwy.com

1. Gan gychwyn yn y Ganolfan Groeso, trowch i'r chwith a chrosi'r bont. Croeswch y ffordd fawr, troi i'r chwith ac yna i'r dde ymhen ychydig o fetrau i lwybr sy rhwng yr adeiladau, arwyddwyd 'Camlas'. Yn y lanfa, ewch i'r chwith ac i'r llwybr tyngu, yna cerddwch ar ei hyd am tua 2.8km. Yn fuan ar ôl mynd heibio Gwesty'r Chain Bridge, croeswch bont fechan sydd wrth hen orsaf bwmpio'r gamlas a mynd drwy giât fechan i'r cae yn ymyl Rhaeadr y Bedol. Dilynwch y llwybr hwn drwy'r caeau nes cyrraedd y ffordd yn ymyl Eglwys Llantysilio.

2. Trowch i'r dde, a mynd ymlaen ar hyd y ffordd a heibio maes parcio Llantysilio Green nes cyrraedd mynegbost ar eich llaw chwith, arwyddwyd 'Abaty Glyn y Groes', sy'n syth ar ôl mynd heibio mynediad i Ganolfan Addysg Awyr Agored Bryntysilio. Ewch ar y llwybr hwn, i'r dde ac yna i'r chwith gan ddilyn yr arwyddion. Ewch i fyny'r grisiau at ymyl y goedlan a dilyn y llwybr i groesi'r gamfa. Trowch i'r dde a dilyn y llwybr sydd ar odre Bryn Hyrddyn. Trowch i'r dde wrth y mynegbost, arwyddwyd 'Abaty', i lawr yr allt, croesi'r gamfa ac i'r ffordd.

3. Croeswch y ffordd fawr yn ofalus a throi i'r chwith gan gerdded wrth ochr y ffordd am dipyn. Ewch drwy'r giât mochyn ar y dde. Ewch dros y cae i giât mochyn arall a llwybr llydan. Trowch i'r chwith a dilyn y llwybr heibio Abaty Glyn y Groes i'r maes carafannau. Ewch ymlaen ar y llwybr rhwng y carafannau ac at y nant. Croeswch y bont dros y nant a dringo'r grisiau. Ar ben y grisiau, ewch drwy'r giât ac i'r caeau, gan gadw'r ffens ar y llaw chwith. Croeswch y gamfa ysgol a throi i'r dde gan anelu at gamfa ysgol arall. Croeswch hon a throi i'r chwith gan ddilyn y llwybr at y gyffordd. Trowch i'r dde i lwybr amlwg ar hyd ochr y bryn. Croeswch ddwy gamfa cyn disgyn i lwybr llydan gan fynd heibio 'Bryn Hyfryd' ac ymuno â'r ffordd. Trowch i'r dde gan ddilyn y ffordd i lawr i'r chwith. Ar waelod yr allt, croeswch y gamfa ar y chwith, arwyddwyd 'Dinas Brân'. Dilynwch yr arwyddion ar draws y cae i'r gamfa sy yn y gornel uchaf, Croeswch hon a throi i'r dde gan ddilyn y ffens ar y fyny. Wrth arwydd y frân, ewch yn syth ymlaen. (Neu, fel arall, gallwch droi i'r chwith wrth yr arwydd a dilyn y llwybr igam-ogam i fyny i Gastell Dinas Brân, yna dewch yn ôl at yr arwydd.)

4. Ewch drwy'r giât mochyn, a pharhau i lawr yr allt gan fynd yn syth ar draws croesffordd fechan. Ewch drwy giât mochyn arall a dilyn y llwybr concrit ar i lawr drwy'r drydedd giât.





Llangollen History Trail

Dilynwch y llwybr wrth ochr yr ysgol. Ewch i lawr y grisiau a chroesi'r ffordd a phont fach y gamlas. Trowch i'r dde gan ddychwelyd i'r lanfa. Dilynwch eich camau yn ôl i dref Llangollen.

The Walk

A leaflet on the Llangollen History Trail describing the historic features of the route in more detail is available from the TIC or www.deevalleywalks.com

1. From the Tourist Information Centre turn left and walk across the bridge. Cross the road, turn left and then right after a few metres onto a path between buildings, signed to the canal. At the wharf turn left onto the towpath and continue for approximately 2.8km. Soon after passing the Chain Bridge Hotel cross a small bridge beside the old pumping station for the canal then go through a small gate into a field beside the Horseshoe Falls. Follow the path through fields before reaching the road by Llantysilio church.

2. Turn right and continue on the road past Llantysilio Green car park until you reach a fingerpost on your left, signed Valle Crucis Abbey, just past the entrance to Bryntysilio Outdoor Education Centre. Take this path right then left, following the waymarkers, then go up steps at the woodland edge and follow the path to a stile. Cross the stile and turn right along the path across the bottom of Velvet Hill. Turn right at a fingerpost, signed to the Abbey, and walk down the hill. Cross a stile and continue to the road.

3. Carefully cross the road then turn left and walk along the roadside for a short distance then go through a kissing gate on the right. Cross the field to another kissing gate onto a track. Turn left and follow the track past Valle Crucis Abbey into the caravan park. Follow the path straight ahead between the caravans down to the stream. Cross the stream at the bridge and go up the steps. At the top turn left and go through gate into fields, keeping to the left-hand fenceline. Cross ladder stile and turn right heading for another ladder stile. Cross and turn left following the path to a junction. Turn right onto a clear path along the lower hillside, crossing two stiles before descending down a track past a house, Bryn Hyfryd to join a road. Turn right and follow the road round to the left down hill. At the bottom of the hill cross a stile on the left, signed Dinas Brân. Follow the waymarkers across the field to a stile in the top corner. Cross and turn right following the fenceline up the hill. At the crow waymarker continue straight ahead. (Alternatively turn left at the waymarker and follow the zig zag path to Castell Dinas Brân before returning back down to the waymarker.)

4. Go through a kissing gate and continue down the hill, across a small crossroads. Go through another kissing gate and follow the concrete path down hill and through a third gate. Then follow the path alongside the school. Go down steps and cross the road and a small canal bridge. Then turn right back to the wharf and retrace your steps back into Llangollen.

Adeiladwyd Castell Dinas Brân yn yr 1260au gan Gruffudd ap Madoc i amddiffyn y ffordd i mewn i Gymru ar hyd Dyffryn yr Afon Ddyfrdwy. Yn 1277 gadawyd y castell i fyddin Lloegr ac i Edward I.

Sylfaenwyd Abaty Glyn y Groes gan y mynachod Sistersiaid yn 1201. Datblygodd i fod yr ail abaty mwyaf cyfoethog yng Nghymru, ar ôl Abaty Tyndyrn. Gorfodwyd y mynachod i adael yr Abaty ar ôl i Henry VIII ddiddymu'r mynachlogydd yn 1537. (Codir tâl mynediad, ffôn: 01978 860326 am wybodaeth).

Thomas Telford a gynlluniodd Rhaeadr y Bedol. Mae'n gyrru 12 miliwn o alwyni o ddŵr bob dydd o'r Afon Ddyfrdwy i'r Shropshire Union Canal. Am fod llif y dŵr ynddi wedi gostwng, ni allai'r afon gynhyrchu ynni ar gyfer y melinau bellach.

Castell Dinas Brân was built in the 1260s by Welsh Prince Gruffudd ap Madoc to guard the route into Wales along the Dee Valley. It was abandoned to the English forces of Edward I in 1277.

Valle Crucis Abbey was founded by the Cistercian monks in 1201 and became the second richest monastery in Wales, after Tintern. The monks were forced to leave after Henry VIII dissolved the monasteries in 1537 (entry fee, tel: 01978 860326 for more information).

The Horseshoe Falls, designed by Thomas Telford, feeds 12 million gallons of water per day from the River Dee into the Shropshire Union Canal. This reduced the river flow so much that it could no longer power the mills.

Mae'r Wharf Tea Rooms yn darparu byrbryd, a theisennau cartref ar lan y gamlas. Ar agor bob dydd o ganol mis Mawrth hyd ddiwedd mis Hydref, a'r penwythnosau yn y gaeaf. Ffôn: 01978 860702.

The Wharf Tea Rooms serve snacks and homemade cakes beside the canal. Open every day from mid-March to end of October and at weekends during winter. Tel: 01978 860702.



Mae Abbey Tea Room yn darparu bwyd poeth, byrbryd a theisennau cartref yn ymyl adfeilion Abaty Glyn y Groes. Hefyd, maent yn gwerthu eu cig fferm eu hunain. Ar agor yn ystod y dydd gydol y flwyddyn, a gyda'r hwyr yn yr haf. Ffôn: 01978 861297; Gwefan: www.abbeyfarmcaravans.co.uk.

Abbey Tea Room serves hot meals, snacks and homemade cakes beside the ruins of Valle Crucis Abbey. They also sell their own farmed meats. Open all year during the day and summer evenings. Tel: 01978 861297; Website: www.abbeyfarmcaravans.co.uk.

